**Hysbysiad archwilio lle does dim modd i Swyddog Ariannol Cyfrifol ardystio'r cyfrifon oherwydd bod y cyfrifon ddim wedi'u paratoi**

Mae Rheoliad 10(1) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd), yn gofyn bod Swyddog Ariannol Cyfrifol CBS Rhondda Cynon Taf yn llofnodi ac yn dyddio'r datganiad cyfrifon. Rhaid iddo/iddi hefyd ardystio bod y datganiad cyfrifon yn adlewyrchiad gwir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi, ac hefyd yn adlewyrchiad teg o incwm a gwariant y corff am y flwyddyn yna. Mae'r Rheoliadau'n gofyn bod hwn yn cael ei gwblhau erbyn 31 Mai 2021.

Dydy'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ddim wedi llofnodi ac ardystio'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021. Oherwydd bod gofyn parhaus i fynd i'r afael ag effaith COVID-19, mae'r awdurdod wedi parhau i ddargyfeirio adnoddau i fod yn gymorth i wasanaethau rheng flaen allweddol, gan ail-flaenoriaethu gwaith yn unol â hynny.  Mae'r Cyngor hefyd wedi diwygio ei amserlen ar gyfer paratoi'r datganiad cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21.  Yn sgil hynny, bydd y datganiad cyfrifon yn cael ei baratoi a bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn llofnodi ac yn ardystio'r datganiad cyfrifon erbyn 2 Gorffennaf 2021.